Adolygiad



2003-2004

Arwain Cymru tuag at ragoriaeth rheolaeth

Cyngor Rheolaeth Cymru

Wales Management Council

CYNNWYS

Ein gweledigaeth a'n cenhadaeth.....1

Ysgogi newid
Ian Rees, Cadeirydd 2

Trosgyflawni
Christopher Ward, Prif Weithredwr 3

Agenda ar gyfer Gweithredu – Y datblygiadau diweddaraf 5

Aelodau a Staff y Cyngor 8

© Cyngor Rheolaeth Cymru 2004

Caniateir atgynhyrchu adrannau o'r ddogfen hon cyn belled â bod cydnabyddiaeth lawn yn cael ei rhoi i'r cyhoeddwr, sef Cyngor Rheolaeth Cymru.

Corff y mae cyflogwyr yn ei arwain yw Cyngor Rheolaeth Cymru, sy'n derbyn nawdd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, i hybu datblygiad rheolwyr yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru.

Nod Cyngor Rheolaeth Cymru yw ysbrydoli, cymell ac ysgogi newid yn y ddirnadaeth ynglŷn â chyfleoedd datblygu rheolwyr ac arweinwyr, ac yn y modd o'u darparu, y nifer sy'n manteisio arnynt a nawdd ar eu cyfer yng Nghymru.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Blwch Post 61
Caerdydd
CF24 5YE

Ffôn: 029 2045 0224
Ffacs: 029 2045 0231

e-bost:

Prif Weithredwr	**Christopher Ward**	christopher.ward@crc-wmc.org.uk
Gweithredwr Marchnata	**Gwyneth Stroud**	gwyneth.stroud@crc-wmc.org.uk
Gweithredwr Gogledd Cymru	**Tina Stephens**	tinastephens@btopenworld.com

I gael mwy o wybodaeth am waith Cyngor Rheolaeth Cymru, piciwch i mewn i'n gwefan www.walesmanagementcouncil.org.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

EIN GWELEDIGAETH A'N CENHADAETH

Corff y mae'r gweithwyr yn ei arwain yw Cyngor Rheolaeth Cymru, a'i genhadaeth yw helpu rheolwyr yng Nghymru i arwain a rheoli mewn modd llwyddiannus.

Ein gweledigaeth yw gwlad lle y mae rheolwyr pob sector yn ddigon uchelgeisiol, ac yn ddigon galluog, i greu a chynnal busnesau a sefydliadau sydd ymhlith y gorau yn y DU.

Ein nod yw ysbrydoli, cymell ac ysgogi newid yn y ddirnadaeth ynglŷn â chyfleoedd datblygu rheolwyr ac arweinwyr, ac yn y modd o'u darparu, y nifer sy'n manteisio arnynt a nawdd ar eu cyfer yng Nghymru.

Ein strategaeth yw:

- Argyhoeddi pob rheolwr o'r manteision ddaw yn sgîl datblygu eu sgiliau a'u galluoedd
- Ymchwilio yn drylwyr i nodi gwir anghenion datblygu rheolwyr Cymru
- Gwneud yn siŵr bod rheolwyr yn gallu sicrhau hyfforddiant a datblygiad hyblyg, o safon uchel
- Rhannu arfer gorau rheolwyr y DU a rheolwyr rhyngwladol â holl fusnesau Cymru
- Mesur cynnydd o'i gymharu â meincnodau credadwy.

Rydym yn bodoli oherwydd y bydd ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth yng Nghymru yn effeithio yn uniongyrchol ar ein twf, ein cynhyrchiant a'n perfformiad yn y dyfodol.

Mae'r galw ar ein rheolwyr ar gynnydd, ac mae'n rhaid i sefydliadau wneud yn siŵr bod eu gweithredwyr yn ddigon medrus wrth reoli ac arwain i allu cystadlu ar y lefel uchaf.

Felly, mae busnesau yng Nghymru yn mynnu cyfleoedd hyfforddi a datblygu o'r ansawdd gorau, sydd mor berthnasol â phosibl ac y gall cymaint o bobl â phosibl fanteisio arnynt.

Mae Cyngor Rheolaeth Cymru yn arwain y broses o ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu cenedlaethol a'u rhoi ar waith er mwyn ymdrin yn effeithiol â'r anghenion hyn.

Ein nod yw defnyddio cyfathrebu cyson sydd wedi'i dargedu yn dda i helpu i newid agweddau a chynyddu'r ymwybyddiaeth o angen Cymru i ddatblygu ei rheolwyr i'w potensial llawn.

Gan ddefnyddio ymchwil gadarn, ein nod yw ysgogi meddwl mewn ffordd newydd yn ogystal â dwyn sylw at sut a phryd yn union y mae angen i Gymru wella'i darpariaeth datblygu rheolwyr.

Ein nod yw helpu i roi cychwyn i'r newid gofynnol yn ogystal â rhannu arfer gorau ledled y wlad, a hynny trwy gydweithio â phartneriaid.

Ein nod yw cynorthwyo sefydliadau a rheolwyr unigol yn uniongyrchol trwy:

- Ledaenu gwybodaeth ymarferol ar wella rheolaeth, trwy gynadleddau, seminarau, gwaith argraffedig a'r rhyngrwyd
- Hwyluso'r ddadl ynglŷn ag agweddau allweddol ar reolaeth ac arweinyddiaeth
- Galluogi busnesau sy'n esiamplau da i rannu eu harfer da â mentrau eraill.

Byddwn yn gosod targedau arloesol i wella gallu rheoli a pherfformiad, a byddwn yn mesur cynnydd o'i gymharu â meincnodau credadwy y DU.

Ein meincnod yn y pen draw yw cynnydd mawr yn effeithlonrwydd a phroffidioldeb busnesau a sefydliadau, gan arwain at dwf economaidd sylweddol i Gymru.

YSGOGI NEWID

Ian Rees - *Cadeirydd*

"Yn y dyfodol, fe fydd yn rhaid i gwmnïau'r DU gystadlu mwy a mwy ar sail cynhyrchion a gwasanaethau unigryw ac arloesol. Fe fydd hyn yn galw am arweinyddiaeth ysbrydoledig, sgiliau rheoli cryfach, gweithlu tra hyfforddedig ac ymatebol, a marchnad waith hyblyg sy'n hybu amrywiaeth a thriniaeth deg."

Mae'r datganiad uchod o gyhoeddiad diweddar y DTI, sef *Innovation Report: Competing in the global economy – the innovation challenge*, a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2003, yn dweud y cwbl.

Ni fyddai unrhyw un yn anghytuno â hyn ac, yng Nghymru, mae canlyniadau diweddar Arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru yn mynegi'r un pwyslais.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cael sgyrsiau â'r Gweinidog Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol-ELWa, Cadeirydd y WDA, ac unigolion amlwg eraill yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Mae pawb yn cytuno bod ansawdd ein rheolwyr a'n harweinwyr yn allweddol i wireddu ein targedau ym maes datblygu economaidd.

O ystyried cefnogaeth mor eang, fe fyddech yn disgwyl i fwy ddigwydd, ond cawsom ein siomi yn hyn o beth.

Yn adolygiad y llynedd, fe ddywedais y byddwn yn gwneud sylwadau ar y cynnydd a wnaed wrth hyrwyddo ein *Hagenda ar gyfer Gweithredu*. Fe welwch y manylion llawn ym mhedwaredd adran yr adolygiad hwn. I grynhoi, gallwn adrodd ar weithgaredd ar lefel strategol, ond nid yw hyn wedi'i drosi yn gynnydd ystyrlon hyd yma, cyn belled ag y mae'r rheolwyr eu hunain yn y cwestiwn.

Roedd yn bleser gennyf gadeirio Grŵp Arweinyddiaeth a Rheolaeth y Cyngor Cenedlaethol-ELWa dros y chwe mis diwethaf, ac rydym wedi gwneud cynnydd o ran creu gweledigaeth sy'n gyffredin i'r llywodraeth a'i hasiantaethau ynglŷn â sut y gellir gwireddu uchelgeisiau ein *Hagenda ar gyfer Gweithredu*.

Fodd bynnag, cefais fy siomi gan amharodrwydd yr un cyrff i ddyrannu'r nawdd sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hargymhellion allweddol ac i wneud y gwahaniaethau go iawn y mae eu gwir angen ar reolwyr yng Nghymru.

Yn amlwg, achos yw hwn o ddymuno'r canlyniad heb ddarparu'r modd o'i gyflawni.

Ni fydd yn bosibl gwneud gwahaniaeth sylweddol i allu rheolwyr ac arweinwyr hyd nes y bydd y maes hwn yn cael blaenoriaeth uchel, a bydd yn rhaid i'r rhai sy'n llunio polisïau wneud rhai penderfyniadau cadarn i wireddu hyn. Ni fydd cadw pethau fel ag y maent yn cyflawni'r canlyniad dymunadwy.

Mae adnoddau sylweddol bellach yn cael eu dyrannu ar gyfer datblygu rheolwyr ac arweinwyr er mwyn hyrwyddo datblygiad economïau rhanbarthol mewn mannau eraill yn y DU. Mae angen cefnogaeth debyg ar reolwyr yng Nghymru i'w galluogi i ddatblygu eu gallu a'u blaen cystadleuol ar gyfer economi Cymru.

Yn ystod y flwyddyn sydd ar ddod, fe fydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn parhau i ysgogi newid ac i bwyso am sefyllfa lle bydd blaenoriaeth briodol yn cael ei phennu i gefnogi datblygiad rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru.

TROSGYFLAWNI

Christopher Ward – *Prif Weithredwr*

Pan fyddwch chi'n edrych ar ein logo, beth fyddwch chi'n ei weld?

Lliwiau cenedlaethol cryf, delwedd sy'n adlewyrchu mynyddoedd a chymoedd Cymru, ac enw dwyieithog gyda'r Saesneg o dan y Gymraeg.

Mae hyn yn wir. Ond rydym ni o'r farn fod ein logo yn golygu mwy na hynny.

Mae'r gwyrdd ar y gwaelod yn cynrychioli'r byd busnes go iawn, materion sylfaenol, bywydau real, heriau real, rhywbeth i'n hatgoffa lle rydym go iawn fel cenedl, fel corfforaeth ac fel unigolyn.

Mae'r coch ar y top yn cyfleu dyheadau, uchelgais, perfformiad gorau, cyflawniad, llwyddiant, canlyniadau.

Rhwng y ddau mae Cyngor Rheolaeth Cymru yn eistedd, sef catalydd, dylanwadwr, dadleuwr sy'n helpu pob sefydliad yng Nghymru i symud o'r gwyrdd i'r coch trwy ansawdd ei reolwyr a'i arweinwyr.

Ar ben hyn, byddwn hefyd yn arsylwi, yn trafod, yn ymchwilio, yn dadansoddi, yn monitro ac yn gwerthuso'r hyn sy'n mynd rhagddo ym maes datblygu rheolwyr ac arweinwyr i sicrhau cynnydd go iawn, ac i sicrhau bod yr hyn sydd ar gael yn wirioneddol diwallu anghenion busnes.

Mae'r cyfle yn anferthol a'r her yn aruthrol.

Rydym yn falch bod gan fwy a mwy o bobl ddiddordeb yn yr hyn sydd gennym i'w ddweud, a'u bod yn nodi ein syniadau.

Mae llawer ohonynt, fodd bynnag, wedi synnu ein bod yn llwyddo i wneud yr hyn rydym yn ei wneud o ystyried adnoddau prin iawn. £236,000 oedd ein nawdd sylfaenol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2003 – 2004 (er y cafwyd cynnydd o £50,000 fel darpariaeth ychwanegol at hwn yn rhan olaf y flwyddyn). Yn 2004 – 2005, £230,000 fydd ein nawdd.

Byddwn yn gwario 73% o hwn ar gostau staff a'r swyddfa, 9% ar gyhoeddusrwydd a'n gwefan, a 18% ar ymchwil, cyhoeddiadau ac achlysuron.

Mae ein nawdd yn cynrychioli oddeutu £1.50 am bob busnes yng Nghymru, neu oddeutu £1.00 am bob rheolwr yng Nghymru.

Does dim syndod y byddwn yn ein hatgoffa ein hunain byth a hefyd bod yn rhaid inni drosgyflawni i wneud i bethau ddigwydd.

Byddwn yn gwneud hyn mewn sawl ffordd:

- Dylanwad strategol trwy argymhellion ein *Hagenda ar gyfer Gweithredu*, a gyhoeddwyd yn 2003. Mae adran nesaf yr adolygiad hwn yn crynhoi cynnydd ein hunain a chynnydd cyrff eraill o'i gymharu â'r argymhellion hyn.
- Byddwn yn cadeirio'r grŵp gwaith amlasiantaeth y mae CC-ELWa wedi ei sefydlu i hyrwyddo argymhellion *Agenda ar gyfer Gweithredu*.

Christopher Ward yn cyflwyno Tystysgrif Gweithle a Reolir Orau i'r Athro Steve Tomlinson, Is Ganghellor, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru

O'r chwith i'r dde: Vincent Kane, Cadeirydd, Canolfan Ansawdd Cymru, John Bosworth, Rheolwr Gyfarwyddwr, Excel (Electronic Assemblies) a Christopher Ward yn un o ymweliadau rhaglen Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru ag Excel

- Byddwn yn gwneud ymchwil ac yn cyhoeddi'r canlyniadau. *Rheoli ac Arloesi, Rheolaeth ac e-Fusnes*, a *Gweithleoedd a Reolir Orau yng Nghymru* yw ein cyhoeddiadau ymchwil diweddaraf. Rydym, ar hyn o bryd, yn ariannu ymchwil i Weithio Perfformiad Uchel, a "chyflwr y genedl" o ran gweithgaredd datblygu rheolwyr mewn cwmnïau ledled Cymru. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau ar y ddau bwnc yma yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

- Byddwn yn sefydlu grwpiau gwaith i edrych yn fanwl ar faterion allweddol. Cadwch eich llygaid yn agored am ein hadroddiad ar farchnata, sef *Gwasgu'r Botymau Iawn*, a'n hadroddiad ar fentora.

- Byddwn yn meithrin gweithgaredd ar y cyd. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi dwyn ynghyd uwch gynrychiolwyr yr holl Ysgolion Busnes yng Nghymru i gael trafodaethau ar y cyd am y tro cyntaf. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau aelodaeth fel CMI, IOD, ILM, CIM a CIPD i ddatblygu rhaglenni gweithredu ar y cyd.

- Cawn ein gwahodd i draddodi cyflwyniadau ar faterion sy'n ymwneud â datblygu rheolwyr ac arweinwyr. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae'r cynulleidfaoedd wedi cynnwys Rhwydwaith Cyfarwyddwyr CGGC, Cynhadledd e-Ddysgu Coleg Gwent, cynhadledd flynyddol DYSG, Menter Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Yr Eglwys yng Nghymru, Uned Rheolaeth ac Arweinyddiaeth DfES/DTI, Fforwm Busnes Wrecsam, Grŵp Gweithwyr Cyswllt Datblygu Rheolaeth Gogledd Cymru, Cinio Busnes Papurau Newydd Gogledd Cymru.

- Byddwn yn chwarae rhan ar grwpiau llywio sy'n ymwneud â Chymru o Blaid Arloesi, Partneriaeth ar Waith, Adolygiad Dysgu yn y Gweithle, a datblygiad safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

- Byddwn yn cyfrannu at waith sy'n ymwneud â defnyddio a rheoli Cronfeydd Strwythurol Ewrop yng Nghymru trwy Grŵp Ymgynghorol Thematig 4 Amcan 1, a Grŵp Partneriaeth Datblygu Adnoddau Dynol Amcan 3.

- Byddwn yn annog arfer gorau trwy ein hymchwil ein hunain i Weithleoedd a Reolir Orau, a thrwy ein hymwneud â Rhaglen Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru.

- Rydym wrthi'n datblygu cysylltiadau â'r ADSS a'r CSSau, a bydd cynnydd yn hyn o beth yn ystod y flwyddyn sydd ar ddod.

- A byddwn yn mwynhau perthynas waith hynod gynhyrchiol gyda'n cymheiriaid yng Ngogledd Iwerddon, sef y Rhwydwaith Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.

Mae Arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 wedi nodi'n eglur bod rheolaeth ac arweinyddiaeth a threfnu datblygu a dysgu personol ar y rhestr o'r pum maes â'r blaenoriaeth uchaf lle mae'n rhaid cynyddu lefelau sgiliau ynddynt yn y blynyddoedd nesaf yma.

Felly mae'r angen a'r galw am ein gwaith yn parhau.

Fel y dywedwn yn yr *Agenda ar gyfer Gweithredu*:

"Mae angen i ni ysgogi a symbylu diwylliant newydd lle mae rheolwyr da yn uchel eu parch, a lle mae ymgeisio am ragoriaeth mewn rheolaeth ac arweinyddiaeth yn rhywbeth y mae pob rheolwr ymhob sector yn ceisio ei gyflawni."

AGENDA AR GYFER GWEITHREDU

Y datblygiadau diweddaraf

Mae ein hadroddiad *Datblygu a hyfforddi rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru – Agenda ar gyfer Gweithredu*, a gyhoeddwyd yn 2003, yn cynnwys strategaeth â chwe phwynt i helpu rheolwyr i "wella'u safonau", ynghyd ag argymhellion ar gyfer nifer o weithredoedd i gefnogi ei gilydd.

Rhestrir yr amcanion strategol a'r pwyntiau gweithredu isod, gyda nodyn mewn llythrennau italig oddi tanynt yn crynhoi'r hyn sydd wedi'i wneud hyd yma.

1. Cynyddu ymwybyddiaeth o ddatblygiad rheolwyr ac arweinwyr, a chynyddu diddordeb yn y maes ac ymroddiad iddo ymhob sector ar bob lefel.

- Y cyfryngau yn sôn yn rheolaidd ac yn barhaus am faterion sy'n ymwneud â datblygiad rheolwyr ac arweinwyr, gyda'r pwyslais ar arfer gorau sy'n arbennig o berthnasol i SMEs.

  Mae papurau newydd a'r radio yn dangos diddordeb cynyddol mewn materion sy'n ymwneud â datblygu rheolwyr ac arweinwyr.

- Cynadleddau, gweithdai a seminarau ar faterion sy'n ymwneud â datblygiad rheolwyr ac arweinwyr.

  Rydym yn gweithio gyda'r Cyngor Cenedlaethol-ELWa i ddatblygu rhaglen cynadleddau a seminarau ledled Cymru.

  Rydym yn cydweithio â CMI, ILM, CIPD, IOD a CIM i gynnal cynhadledd ar y cyd yn 2005.

  Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cynhadledd ar y cyd i edrych yn fanwl ar gyfraniad posibl y sector preifat at Fenter Rheolaeth y Sector Cyhoeddus.

- Cyhoeddiadau argraffedig ac ar y rhyngrwyd, o Gymru a thu hwnt, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu rheolwyr ac arweinwyr ac yn darparu enghreifftiau o arfer gorau, a help sy'n rhwydd manteisio arno.

  Yn ystod y deuddeg mis diwethaf rydym wedi cyhoeddi Rheoli ac Arloesi *a* Rheolaeth ac e-Fusnes, *y ddau wedi'u seilio ar ymchwil ac astudiaethau achos o SMEs yng Nghymru.*

  Rydym hefyd yn datblygu ein gwefan fel adnodd allweddol, ac rydym wedi lansio cylchlythyr deufisol ar ein gwefan, o'r enw Rheolaeth – Meddyliwch Amdani.

  Rydym wedi sefydlu grŵp gwaith i edrych i mewn i hybu a marchnata cyfleoedd datblygu rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru. Cyhoeddir argymhellion y grŵp hwn yn ddiweddarach yn 2004.

- Cynnydd yn aelodaeth sefydliadau sydd â datblygiad rheolwyr ac arweinwyr yn rhan graidd o'u cylch gorchwyl a'u hamcanion.

  Rydym wrthi'n datblygu perthynas waith agos gyda CMI, ILM, CIPD, ac IOD i gyflawni amcan sy'n gyffredin i ni oll, sef sicrhau bod mwy o bobl yn manteisio ar gyfleoedd datblygu rheolwyr ac arweinwyr.

- Annog enwebiadau personol fel rhan o'r dyfarniadau blynyddol cenedlaethol ar gyfer rheolwyr ac arweinwyr ymhob sector ac mewn busnesau o bob maint.

  Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau ar gyfer dyfarniadau blynyddol i gydnabod rhagoriaeth mewn rheolaeth.

- Cystadlaethau blynyddol i brofi a gwobrwyo sgiliau rheolwyr ac arweinwyr.

  Gwnaethom gynnal Her Tîm Rheolaeth Cymru yn 2002 a 2003, ac rydym yn ceisio nawdd i gynnal yr Her eto yn 2004.

  Sefydlu cynllun Cymru gyfan i gydnabod busnesau a sefydliadau sy'n enghreifftiau o arfer da mewn rheolaeth ac arweinyddiaeth, ac sy'n fodlon rhannu'r arferion hyn ag eraill.

  Yn 2003, ar y cyd â Phrifysgol Cymru, Bangor gwnaethom gynnal yr ymchwil gyntaf i nodi a chyhoeddi astudiaethau achos o'r deg o Weithleoedd a Reolir Orau yng Nghymru.

2. Helpu rheolwyr i nodi eu hanghenion eu hunain o ran datblygu sgiliau rheoli ac arwain.

- Sefydlu, cynnal, darparu a gwerthuso cynllun mentora rhwng busnesau, sefydliadau, ac unigolion.

  Rydym wedi sefydlu grŵp gwaith i edrych yn fanwl ar y mater hwn ac i wneud argymhellion ar gyfer ffordd ymlaen. Cyhoeddir adroddiad y grŵp hwn yn 2004

- Paratoi dyfais ddiagnostig y mae modd i bob busnes a sefydliad ei defnyddio i helpu unigolion i nodi anghenion datblygu sgiliau rheoli ac arwain ac i nodi bylchau mewn sgiliau, a rhoi cyhoeddusrwydd i'r ddyfais hon.

  Mae'r Cyngor Cenedlaethol-ELWa yn ariannu prosiect ymchwil i edrych yn fanwl ar anghenion y farchnad a'r dyfeisiau diagnostig sydd ar gael ar hyn o bryd, ynghyd ag argymhellion ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

3. Sicrhau bod rheolwyr yn gallu dewis ar sail gwybodaeth pa rai yw'r atebion gorau o ran datblygu rheolwyr ac arweinwyr i'w busnes neu eu sefydliad a chynyddu eu hymwneud â gweithgareddau datblygu rheolwyr ac arweinwyr a'u cyfranogiad ohonynt.

- Categoreiddio'r ddarpariaeth cefnogaeth sydd ar gael i ddatblygu rheolwyr ac arweinwyr, ynghyd â'r ffynonellau cyllid, ar gronfa ddata genedlaethol sydd ar gael i bawb, lle gellir chwilio yn ôl angen neu fudd, yn ogystal ag yn ôl cynnyrch, sector a daearyddiaeth.

  Mae'r Cyngor Cenedlaethol-ELWa wedi ariannu Uned Ymchwil Cwmnïau Bychain Ysgol Fusnes Caerdydd i fapio darpariaeth cyfleoedd a chefnogaeth datblygu rheolwyr ac arweinwyr ledled Cymru. Bwriedir cyhoeddi eu hadroddiad fis Mai 2004. Rhagflaenydd hanfodol yw hwn i gronfa ddata gyflawn, ond nid oes cynlluniau ar y gweill hyd yma i ddatblygu cronfa ddata o'r fath.

4. Darparu ffynonellau arian cyhoeddus ar gyfer amcanion strategol 1 - 3, a darpariaeth cefnogaeth berthnasol ar gyfer datblygu arweinwyr a rheolwyr.

- Mapio, hybu a chydnabod arian cyhoeddus fel prif ysgogydd newid o ran agweddau, y modd o ddarparu a chanlyniadau'r holl weithgareddau datblygu arweinwyr a rheolwyr, a'r nifer sy'n manteisio arnynt.

  Dim gweithredu hyd yma

- Canolbwyntio arian cyhoeddus ar angen, nid ar y cynnyrch, a'i hybu fel galluogwr hyblyg sy'n helpu busnesau, sefydliadau ac unigolion i ddewis yr hyfforddiant a'r datblygiad sy'n berthnasol iddynt, a hynny ar sail gwybodaeth.

  Mae'r Cyngor Cenedlaethol-ELWa a'r WDA fel ei gilydd yn cynyddol ddilyn agenda sy'n cael ei harwain gan y galw.

- Cyflwyno cynlluniau syml anfiwrocrataidd, e.e. cyflwyno Cyfrifon Dysgu i Gwmnïau, yn enwedig i SMEs â llai na 50 o staff.

  Mae'r Cyngor Cenedlaethol-ELWa wedi llwyddo i gyflwyno cynllun arbrofol Cyfrifon Dysgu i Gwmnïau, ac mae'n sicrhau eu bod ar gael i mwy o gwmnïau bellach. Mae gan y WDA gynlluniau arloesol ar gyfer cynllun tebyg.

- Sicrhau bod arian sylweddol ar gael ar gyfer cynllun mentora Cymru-gyfan rhwng busnesau a rhwng unigolion.

  Yn aros argymhellion y grŵp gwaith yn 2 uchod.

- Arian cyhoeddus i dalu am staff llanw er mwyn galluogi pobl eraill i hyfforddi, yn ogystal â gweithgareddau hyfforddiant unigol.

  Mae'r broblem wedi'i chydnabod, ond ni chafwyd unrhyw weithredu hyd yma.

- Cefnogaeth ehangach i fusnes, wedi ei hariannu'n gyhoeddus, a'i chysylltu â chaffael hyfedredd a sgiliau (yn enwedig sgiliau rheoli) ar sail systematig a chynlluniedig.

  Mae'r WDA wedi dechrau edrych i mewn i'r mater hwn.

- Rhaid i gynnydd mewn galluoedd sy'n berthnasol i bob busnes a sefydliad, yn hytrach na rhai sydd ynghlwm wrth gymwysterau achrededig, fod ymhlith y canlyniadau.

  Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru newydd wedi dechrau mynd i'r afael â mater dysgu anffurfiol a dysgu heb achrediad.

5. Sefydlu fframwaith gwerthuso a monitro i asesu canlyniadau ac effaith gweithgareddau datblygu arweinwyr a rheolwyr yng Nghymru a nifer y rhai sy'n manteisio arnynt.

- Monitro'n flynyddol safon a nifer y cyfleoedd datblygu arweinwyr a rheolwyr yng Nghymru wrth i'r cwmni adrodd ar ei weithgareddau datblygu rheolwyr ac arweinwyr.

  Rydym yn ariannu prosiect ymchwil i sefydlu rhywfaint o ddata sylfaenol y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd. Cyhoeddir yr adroddiad ar yr ymchwil hon tuag at ddiwedd 2004.

- Ymchwilio i fecanweithiau i werthuso canlyniadau ac effeithiau gweithgareddau datblygu rheolwyr ac arweinwyr, a'u sefydlu.

  Rydym yn bwriadu sefydlu grŵp gwaith i edrych yn fanwl ar y mater hwn yn ystod y flwyddyn sydd ar ddod.

6. Adolygu'r strategaeth hon a'r cynllun gweithredu hwn i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion newidiol pob busnes a sefydliad yng Nghymru.

- Adolygu a diweddaru'r strategaeth a'r cynllun gweithredu bob tair blynedd yng ngoleuni anghenion busnesau a sefydliadau yr adroddwyd arnynt.

  Ysgrifennwyd yr Agenda ar gyfer Gweithredu yn 2002 a chyhoeddwyd hi yn 2003. Byddwn yn ysgrifennu fersiwn newydd yn 2004 i'w gyhoeddi yn 2005 i adlewyrchu darganfyddiadau Arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru, Adolygiad Cefnogi Busnesau y Cyngor Cenedlaethol-ELWa, y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2004 sydd ar ddod, Adolygiad y Cyngor Cenedlaethol-ELWa o Ddysgu yn y Gweithle ac ymchwil gyhoeddedig arall i faterion sy'n ymwneud â datblygu rheolwyr ac arweinwyr.

AELODAU A STAFF Y CYNGOR

a. Aelodau'r Cyngor

Mae gan y Cyngor bolisi bod Aelodau'n gwasanaethu am dair blynedd, a bydd pump aelod yn ymddeol ym mis Mai bob blwyddyn, a bydd pump aelod newydd yn cael eu penodi ar yr un adeg neu'n agos i'r un adeg.

■ *Aelodau fu'n gwasanaethu trwy gydol 2003 - 2004*

Ian Rees (Cadeirydd) *	Riverside Water Technologies
Allan Martin (Dirprwy Gadeirydd) *	Fforwm Electroneg Cymru a Gyrfa Cymru
Laurence James (Ysgrifennydd)	Bond Pearce
Carl Hadley *	Rockwood Cyf ac UWS Ventures
Yr Athro Dylan Jones-Evans	NEWI
Pauline Kotschy *	Pauline Kotschy Associates
Eileen Murphy	Cynghorydd i'r Sector Gwirfoddol
Nonna Woodward	IOD a Phapurau Newydd Gogledd Cymru

* yn dynodi'r Aelodau hynny y bydd yr amser wedi dod iddynt adael y Cyngor yn 2004 - 2005

■ *Aelodau a adawodd y Cyngor yn 2003 – 2004*

Rob Halford	EEF, nawr LICC
Roger James	AMICUS
Roger Mansfield	Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd
Steve Martin	CCAUC
Tom Morgan	IOD
Brian Willott	Dragon International Studies Cyf
Tim Williams	Fforwm Moduron Cymru

■ *Aelodau a ymunodd â'r Cyngor yn 2003 – 2004*

Yr Athro Michael Quayle	Ysgol Fusnes Prifysgol Morgannwg
Chris Young	Fforwm Electroneg Cymru
Jacqueline Royall	Perkin Elmer
David Willcox	Nu-Aire Group
Peter Hurley	Orange Box
Gary Mawer	UPL
Andrew Wilkinson	HSBC

Aelodau newydd y Cyngor, ar eu heistedd o'r chwith i'r dde: Chris Young, Fforwm Electroneg Cymru; Jacqueline Royall, PerkinElmer; ar eu traed o'r chwith i'r dde: David Willcox, NuAire; Peter Hurley, Orangebox

b. Arsylwyr

Ron Loveland	Llywodraeth Cynulliad Cymru (hyd fis Tachwedd 2003)
Robert Macey	Llywodraeth Cynulliad Cymru (o fis Tachwedd 2003)
Richard Rossington	Llywodraeth Cynulliad Cymru
John V Williams	ACCAC

c. Staff

Christopher Ward	Prif Weithredwr
Gwyneth Stroud	Gweithredwr Marchnata
Hywel Roberts	Gweithredwr Gogledd Cymru (hyd fis Mawrth 2004)
Tina Stephens	Gweithredwr Gogledd Cymru (o fis Ebrill 2004)

Tina Stephens, Gweithredwr Gogledd Cymru